Canolfan Cydweithredol Cymru

Cydweithio,
rhyddhau potensial,
cefnogi llwyddiant

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

www.walescoop.com

Cynnwys

02/03
Cymorth i fentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol

04/05
Cefnogi cynhwysiant digidol

06/07
Cefnogi cynhwysiant ariannol

08/09
Cefnogi Masnach Deg

10/
Ein rhaglen o weithdai a digwyddiadau
Cysylltwch â ni

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras.
I ofyn am gopi, ffoniwch 029 2055 4955

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund

/01

Canolfan Cydweithredol Cymru _
Cydweithio, rhyddhau potensial, cefnogi llwyddiant

Cyflwyniad

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn bodoli i helpu busnesau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol. Ers dros 25 mlynedd, rydym wedi rhoi help llaw i fudiadau sydd wedi cael eu sefydlu a mudiadau newydd drwy ddarparu cymorth hyblyg, dibynadwy ac ymatebol.

A ninnau'n cael ein hariannu'n bennaf gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym yn gweithio'n unswydd â mudiadau a chymunedau i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, digidol ac ariannol yng Nghymru.

02/03
Canolfan Cydweithredol Cymru _
Cydweithio, rhyddhau potensial, cefnogi llwyddiant

Cymorth i fentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi datblygiad a thwf entrepreneuriaeth gymdeithasol, mentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol ar draws Cymru. Pa un a ydych am sefydlu menter gymdeithasol neu fusnes cydweithredol newydd, neu ddatblygu menter sydd eisoes yn bodoli, mae ein tîm o gynghorwyr arbenigol ar gael i'ch helpu.

Beth yw mentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol?

Busnesau sy'n masnachu ac sydd â nodau cymdeithasol ac amgylcheddol yn greiddiol iddynt yw mentrau cymdeithasol. Yn wahanol i fusnesau preifat, nid elw sy'n gyrru mentrau cymdeithasol, yn hytrach, maent yn cydbwyso'r angen i redeg busnes cystadleuol â'u nodau cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yr un mor bwysig.

> **Wn i ddim beth y byddwn wedi'i wneud heb y cymorth a gawsom gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Diolch am eich cefnogaeth!**
> Lis McLean, Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Mae unrhyw elw a wneir (a elwir yn aml yn elw cymdeithasol) yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r nodau hynny. Mae mentrau cymdeithasol yn gweithredu mewn nifer o sectorau gwahanol megis addysg, gofal iechyd, cludiant ac ailgylchu. Dwy enghraifft adnabyddus yw Prosiect Eden a'r Big Issue.

Mae busnesau cydweithredol yn fusnesau sy'n eiddo i'w gweithwyr neu eu haelodau ac yn cael eu rheoli'n ddemocrataidd ganddynt. Mae ganddynt werthoedd creiddiol sy'n cynnwys tryloywder, gonestrwydd, cyfrifoldeb cymdeithasol a hunangymorth i arwain y modd y cânt eu sefydlu a'r hyn a wnânt. Mae llawer o fusnesau cydweithredol yn fentrau cymdeithasol hefyd.

Den Dylan

Pan glywodd grŵp o famau o Ysgol Gynradd Treorci fod y clwb ar ôl ysgol yn cau, mi benderfynon nhw ddatrys y broblem drwy sefydlu'u menter gymdeithasol gydweithredol eu hunain, Den Dylan.

Bellach, mae'r busnes yn darparu gwasanaeth hanfodol i rieni yn yr ysgol, pa un a ydynt yn gweithio, yn hyfforddi neu dim ond am gael hoe. Ac mae'r plant wrth eu bodd hefyd.

Caban

Mae prinder adeiladau am bris rhesymol, a phellter oddi wrth y gymuned ehangach, yn broblem i lawer o fusnesau bychain yn ardaloedd gwledig Gwynedd.

Busnes cydweithredol cymunedol yw Caban Cyf ac mae'n rhoi sylw i'r anghenion hyn drwy ddarparu unedau busnes am bris rhesymol mewn amgylchedd deinamig a chefnogol. Mae hyn yn galluogi ystod amrywiol o fentrau – gan gynnwys dylunwyr gwefannau, cyhoeddwyr a chwmniau gweithgareddau awyr agored – i ganolbwyntio ar ddatblygu eu busnesau.

Mantais mentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol

Credwn fod mentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol yn cynnig gwell ffordd o gynnal busnes sy'n canolbwyntio ar sicrhau newid cadarnhaol i bobl a chymunedau.

Cymorth arbenigol

Mae aelodau profiadol ein tîm ar gael i'ch helpu i sefydlu neu ddatblygu eich menter gymdeithasol neu fusnes cydweithredol. Byddwn yn gweithio gyda chi i ganfod pa gymorth sydd ei angen arnoch a byddwn yn darparu cyngor arbenigol ar bob cam o'r ffordd, gan gyfeirio at gynghorwyr arbenigol os bydd raid. Mae'r cymorth a gynigiwn yn cynnwys meysydd megis cynllunio busnes, strwythurau cyfreithiol, adnoddau dynol, cyllid a marchnata.

Gallwn hefyd ddarparu cymorth i chi ar ffurf hyfforddiant, mentora, dosbarthiadau meistr a chyfleoedd rhwydweithio.

Gallwn gefnogi:

Mentrau cymdeithasol a busnesau cydweithredol yn y gymuned: mudiadau a sefydlir gan grŵp o bobl i gyflenwi cynnyrch neu wasanaeth i'w cymuned.

Busnesau Cydweithredol sy'n eiddo i'r Gweithwyr: busnes y mae grŵp o weithwyr yn berchen arno, o bosibl ar ôl i'r gweithwyr brynu'r busnes.

Consortia o Fusnesau Cydweithredol: grwpiau o fusnesau sydd wedi dod at ei gilydd i bwrpas cyffredin, megis marchnata neu er mwyn tendro ar gyfer contractau mawr.

Er mwyn canfod a yw eich busnes ar y cam iawn yn ei ddatblygiad i gael cefnogaeth, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen ymholiad y gellir ei chael drwy e-bostio **walescoop@walescoop.com** neu drwy ffonio **029 2055 4955**.

DLT

Pan benderfynodd perchenogion DLT Training Ltd ymddeol, casglodd un ar ddeg aelod staff eu cynilion at ei gilydd i ddod yn gyfarwyddwyr newydd y cwmni mewn Pryniant gan Weithwyr.

Mae'r cwmni wedi bod yn darparu hyfforddiant i'r diwydiannau gweithgynhyrchu, adeiladu a logisteg ers dros ddeng mlynedd ar hugain bellach. Drwy sefydlu busnes cydweithredol sy'n eiddo i'r gweithwyr, gallai'r cyfarwyddwyr newydd sicrhau bod yr etifeddiaeth hon yn parhau gan wynebu heriau'r dyfodol yn hyderus.

04/05
Canolfan Cydweithredol Cymru _
Cydweithio, rhyddhau potensial, cefnogi llwyddiant

Cefnogi cynhwysiant digidol

Dapper FM

Roedd grŵp o wirfoddolwyr ym Mhengwaun yn awyddus i sefydlu gorsaf radio gymunedol barhaol yn yr ardal leol er mwyn darparu adnodd gwybodaeth hanfodol.

Ar ôl derbyn hyfforddiant, ysgwyddodd gwirfoddolwyr y cyfrifoldeb dros redeg yr orsaf o ddydd i ddydd sy'n darlledu ar-lein, saith niwrnod yr wythnos. Mae trigolion lleol yn dysgu sut i ddefnyddio technolegau digidol drwy gyfrannu at waith yr orsaf.

Mae technoleg ddigidol – megis ffonau symudol, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd – yn dod yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd. Rydym yma i helpu cymunedau a mentrau cymdeithasol yn y Gymru fodern er mwyn iddynt allu manteisio'n llawn ar y dechnoleg hon.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn darparu Cymunedau 2.0, prosiect cynhwysiant digidol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Grŵp Novas Scarman, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Cyngor Sir Gaerfyrddin, a Chanolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol Morgannwg.

Cynorthwyo grwpiau gwirfoddol a chymunedol

Ydych chi'n rhedeg grŵp cymunedol neu fudiad gwirfoddol? Beth am weld a allwn eich helpu i wneud defnydd gwell o dechnoleg?

Gallwn ddarparu cymorth technegol, asesu a yw eich cyfarpar yn gweithio'n effeithiol a'ch helpu i ddatblygu technoleg ddigidol yn eich mudiad. Gallwn helpu mewn ffyrdd eraill hefyd, er enghraifft, gallwn roi arweiniad i chi am ba raglenni cyfrifiadurol fyddai'n fwyaf addas i chi neu eich helpu i sefydlu gwefan.

Cynnwys eich cymuned

Mae gennym lawer o bobl o hyd yng Nghymru sy'n ddihyder gyda chyfrifiaduron a thechnoleg gan nad ydynt yn gwybod sut i'w defnyddio neu ddim yn gwybod ble i ddod o hyd i gyfarpar neu gefnogaeth. Efallai nad ydynt, yn syml, yn gwerthfawrogi'r manteision.

Rydym eisiau newid hynny.

Efallai fod gennych syniad am sut i estyn allan at y bobl hynny yn eich cymuned sy'n lleiaf tebygol o ddefnyddio technoleg ond a allai fanteisio fwyaf arni. Gallwch eich helpu i sefydlu'ch prosiect a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae ein cefnogaeth yn cynnwys rhoi cyngor i chi ar gyfer datblygu'ch syniad, eich helpu i ddod o hyd i adnoddau, darparu cymorth ymarferol i ddatrys problemau technegol, eich rhoi mewn cysylltiad â'r rheini sydd â syniadau tebyg a'ch cyflwyno chi i bartneriaid posibl.

Byteback Training

Mae mudiadau cymunedol yn Llandudno a Bae Colwyn wedi troi at Byteback Training i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau a phrosiectau sy'n helpu pobl i ddefnyddio technolegau digidol.

Wrth ddarparu rhaglen lawn o gyrsiau parod a phwrpasol, mae ByteBack Training yn helpu i ddatblygu sgiliau a hyder busnesau ac unigolion sy'n awyddus i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd am resymau cymdeithasol a phroffesiynol.

Cefnogi mentrau cymdeithasol

Os ydych chi'n rhedeg menter gymdeithasol, gallwn eich helpu i gael y gorau o dechnoleg ddigidol. Efallai yr hoffech ddefnyddio technoleg i ychwanegu gwerth at eich menter gymdeithasol, ei helpu i dyfu ac i ddod yn fwy cynaliadwy.

Gallwn adolygu'ch anghenion technoleg ddigidol a'ch helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ble rydym yn gweithio

Anelir y cynllun hwn at Ogledd Orllewin Cymru, De Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Rydym yn darparu cymorth i fudiadau sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd blaenoriaeth neu i fudiadau sy'n gweithio gyda phobl yn yr ardaloedd hynny, gan gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. I weld a ydych wedi'ch lleoli mewn ardal gymwys, ffoniwch ni ar **029 2055 6954** neu ewch i **www.cliciocysylltudarganfod.org**

> **"Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod o gymorth mawr i ni. Bu eu cyngor a'u harbenigedd yn gymorth amhrisiadwy.**
> Clare Pilborough, One People

YstradTV

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cyfryngau Ystradgynlais (YstradTV), a leolir yng nghanol Cwm Tawe, i ennyn brwdfrydedd, creu cyffro, addysgu a rhoi gwybodaeth drwy gyfrwng y cyfryngau. Sgriptio, ffilmio, recordio sain, cyflwyno a riportio yw rhai o'r sgiliau a drosglwyddir i bobl o bob oed yn y gymuned, er mwyn iddynt allu gwneud eu rhaglenni blaengar eu hunain a darlledu i'r byd.

06/07
Canolfan Cydweithredol Cymru _
Cydweithio, rhyddhau potensial, cefnogi llwyddiant

Cefnogi cynhwysiant ariannol

Beth yw cynhwysiant ariannol?

Mae cynhwysiant ariannol yn golygu sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau ariannol priodol, a fydd yn eu galluogi i reoli eu harian o ddydd i ddydd, cynllunio ar gyfer y dyfodol a delio'n effeithiol â gofid ariannol.

Sut gallwn ni helpu?

Ein rôl yw darparu cymorth a hyfforddiant i Undebau Credyd ar draws Cymru a dylanwadu ar randdeiliaid allweddol er mwyn iddynt deilwra'u gwasanaethau i helpu pobl sy'n wynebu problemau ariannol.

Mae ein gwaith ar gynhwysiant ariannol yn cynnwys y meysydd gweithgarwch canlynol:

Hyfforddiant i Undebau Credyd

Os ydych chi'n gwirfoddoli neu'n gweithio mewn undeb credyd yng Nghymru, neu'n aelod o fwrdd undeb credyd yng Nghymru, mae ein Prosiect Hyfforddiant i Undebau Credyd, a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn rhoi hyfforddiant i chi.

Archwiliadau Iechyd Undebau Credyd

Fel rhan o Archwiliadau Iechyd Undebau Credyd, a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad, mae ein Swyddogion yn treulio hyd at ddau ddiwrnod gydag Undeb Credyd ac yn cyfweld yr holl staff allweddol. Byddwn wedyn yn ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr sydd bellach yn cynnwys dadansoddiad ariannol gan ddefnyddio'r system CUMIT (Credit Union Management Information Tool).

Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol

Dyma fenter ar y cyd rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Trysorlys a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Daw â strategaethau o San Steffan a Chaerdydd ynghyd o dan un agenda gyffredin – gan sicrhau cymorth hirdymor i helpu pobl i ddod o hyd i'w ffyrdd realistig ac ymarferol eu hunain o reoli arian. Rydym yn helpu mudiadau sy'n gweithio yn y gymuned i gefnogi'r unigolion y mae ganddynt gysylltiad â nhw. Gall hyn olygu newidiadau bach i'r ffordd y maent yn gweithio neu sut y maent yn cysylltu eu gwasanaethau â mudiadau ac asiantaethau eraill a all helpu. Mae'r tîm o Hyrwyddwyr yn gweithio gyda mudiadau i deilwra atebion cefnogaeth sydd fwyaf addas iddynt hwy, eu partneriaid a defnyddwyr eu gwasanaethau.

Ysgolion

Gwefan ryngweithiol yw 'CU@theCU' am Undebau Credyd sydd wedi'i dylunio gan bobl ifanc ac Undebau Credyd. Fe'i datblygwyd i helpu i wneud cysylltiadau rhwng Undebau Credyd ac ysgolion uwchradd. Ewch i www.cuinschools.org

Undeb Credyd Smart Money

Mae Undeb Credyd Smart Money yn rhoi'r cychwyn gorau posibl i blant yng Nghaerffili a Blaenau Gwent drwy gynnig cyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP). Cyfrif cynilo yw'r CYP a'i fwriad yw helpu plant i ddechrau cynilo'n ifanc.

Drwy fuddsoddi'u taleb CYP yn yr Undeb Credyd, gall rhieni helpu eu plentyn i brynu ei gar cyntaf, i dalu am fwy o addysg, i deithio neu i roi blaendal ar dŷ.

Undeb Credyd Llandudno a'r Cylch

Mae Undeb Credyd Llandudno ymysg y cyntaf i gynnig cyfrif cyfredol ar gyfer diwallu anghenion ariannol ei aelodau, gan gynnwys mynediad i rwydwaith o beiriannau twll yn y wal (ATM) ledled y DU.

Mae Undeb Credyd Llandudno, sy'n arloesol, yn foesegol, yn gyfrifol ac yn lleol, yn darparu gwasanaethau ariannol fforddiadwy, ei aelodau sy'n berchen arno, mae'n cael ei reoli gan ei aelodau ac ar ran ei aelodau..

Gyda phwy rydyn ni'n gweithio?

Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gydag Undebau Credyd ledled Cymru.

Rydym hefyd yn gweithio mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a phartneriaethau strategol lleol, cymdeithasau tai, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Cyngor Ar Bopeth, Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr ac asiantaethau eraill sy'n rhoi cyngor am ddyledion.

> **Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn ymatebol iawn, yn llawn gwybod ac o gymorth mawr drwy'r amser.**
>
> Barry Roberts, Undeb Credyd Llandudno

CU@theCU

Fe sefydlodd Ysgol Gyfun Dyffryn, yng Nghastell-nedd Port Talbot, fan casglu undeb credyd ar gyfer disgyblion gyda chymorth Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot.

Fe fu'r disgyblion hefyd yn gysylltiedig â chreu adnodd dysgu ar-lein - www.cuinschools.org - sy'n annog mwy o bobl ifanc i gymryd diddordeb mewn cynlluniau cynilo gan undebau credyd, fel busnes cydweithredol ariannol sy'n eiddo i'r aelodau.

08/09
Canolfan Cydweithredol Cymru _
Cydweithio, rhyddhau potensial, cefnogi llwyddiant

Cefnogi Masnach Deg

Coffee Culture

Mae Coffee Culture, sydd wedi ei leoli mewn siop lyfrau yng nghanol Llandudno, yn cynnig amrywiaeth o ddiodydd Masnach Deg ac organig i gwsmeriaid, gan ddefnyddio cyflenwyr lleol er mwyn cefnogi economi'r dref. Yn 2010, Coffee Culture enillodd y bleidlais a gynhaliwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn ceisio dod o hyd i hoff le'r cyhoedd i fynd am baned Masnach Deg. Dywed Barry Mortlock, y Rheolwr Gyfarwyddwr: "Rwy'n meddwl bod ein cwsmeriaid yn rhoi pwys mawr ar Fasnach Deg, a byddwn yn ceisio gwneud yn siŵr bod y profiad, a'r baned, yn bleser dro ar ôl tro."

Beth yw Masnach Deg?

Ffordd o helpu rhai o ffermwyr a chynhyrchwyr tlotaf y byd yw Masnach Deg, drwy roi pobl yn gyntaf a thalu pris teg am eu nwyddau. Mae hefyd yn helpu i gyflwyno amodau gweithio diogel a theg ac arfer amgylcheddol da.

Gellir defnyddio cynnyrch fel te, coffi, siwgr, bananas, siocled a chotwm yn eich gweithle, siop neu fusnes arlwyo. Y Sefydliad Masnach Deg yn y DU sy'n rhoi trwyddedau i ddefnyddio'r nod MASNACH DEG ar gynnyrch fel y rhain. Mae'r nod hwn hefyd yn cynnwys talu premiwm i ffermwyr Masnach Deg, a ddefnyddiant i wella'u cymuned.

Gellir cynhyrchu nwyddau eraill megis crefftau drwy ddulliau masnachu teg.

Mae'r farchnad am nwyddau Masnach Deg yn tyfu'n gyson. Y DU yw'r farchnad fwyaf ar gyfer y nwyddau ac mae Cymru ar flaen y gad fel Gwlad Masnach Deg cyntaf y byd.

Mae cynhyrchwyr Masnach Deg yn cael eu trefnu mewn grwpiau democrataidd, yn aml ar ffurf busnesau cydweithredol – a dyna un o'r rhesymau pam yr ydym yn eu cefnogi.

Sut gallwn ni helpu?

Rydym yn darparu digonedd o wybodaeth yn www.walescoop.com gan gynnwys manylion y cyflenwyr a mynediad at fap ar-lein lle gallwch ychwanegu eich busnes iddo os ydych yn cefnogi Masnach Deg. Gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnyrch sy'n cael eu datblygu, eich gwahodd i ddigwyddiadau a helpu'ch busnes i fabwysiadu polisi.

Os ydych yn werthwr neu'n fewnforiwr Masnach Deg arbenigol, gallwch gael cymorth marchnata hefyd drwy ein digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio.

Pwy gawn ni eu cefnogi?

Rydym yn cael ein hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad i weithio gyda pob math o fusnesau yng Nghymru – felly os hoffech gael cymorth i ddeall beth yw Masnach Deg neu ddefnyddio eu cynnyrch, ffoniwch ni ar **029 2055 4955**.

Arriva Trains Wales

Penderfynodd Trenau Arriva Cymru ddefnyddio te, coffi, siocled poeth a siwgr Masnach Deg ar ei holl wasanaethau, gan roi hwb i statws Cymru fel gwlad Masnach Deg gyntaf y byd. Mae gan y cwmni 127 o drenau ac yn gweini diodydd i filoedd o deithwyr bob dydd. Bellach, mae'n bodloni'r galw gan gwsmeriaid a hefyd yn helpu ffermwyr yn y byd sy'n datblygu i gael pris teg am eu nwyddau.

> **Cawsom gyngor amhrisiadwy gan Dîm Masnach Deg Canolfan Cydweithredol Cymru.**
>
> Mark Richardson, Cynnyrch Cynaliadwy Dwyfor

Love Zimbabwe

Cafodd Martha Musonza Holman ei magu yn Zimbabwe, felly roedd hi'n gwybod pa mor anodd yw ennill bywoliaeth yno mewn ardal wledig bellennig.

Pan lwyddodd i symud i'r DU, roedd hi'n benderfynol o helpu ei chydwladwyr trwy sefydlu Love Zimbabwe, menter gymdeithasol sy'n mewnforio a gwerthu nwyddau a chrefftau o Zimbabwe sydd wedi'u masnachu'n deg.

Mae ei busnes yn aelod o Gymdeithas Siopau Masnach Deg Prydain a bellach mae'n helpu pobl yn ei mamwlad i gynnal eu hunain a dod yn hunangynhaliol.

Cysylltwch â ni

Ein rhaglen o weithdai a digwyddiadau

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a all wella eich galluoedd, eich sgiliau a'ch gwybodaeth. Gall ein rhaglen o weithdai, seminarau a dosbarthiadau meistr roi'r sgiliau yr ydych chi a'ch mudiad eu hangen i ddatblygu.

Os ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli i un o'r canlynol, mae ein Rhaglen o Weithdai a Digwyddiadau yn addas i chi:

+ Grwpiau gwirfoddol/cymunedol a chanddynt ddiddordeb mewn menter gymdeithasol
+ Mentrau cymdeithasol
+ Busnesau cydweithredol
+ Undebau Credyd
+ Sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chanddynt ddiddordeb mewn menter gymdeithasol
+ Sefydliadau yn y sector preifat sydd â diddordeb mewn menter gymdeithasol

Cysylltwch â ni

Unrhyw gwestiynau?
Mae ein gwefan yn darparu digonedd o wybodaeth am Ganolfan Cydweithredol Cymru, ein prosiectau a'n cleientiaid. Ewch i **www.walescoop.com**

Gallwch gysylltu hefyd drwy anfon e-bost i **walescoop@walescoop.com**

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar gynhwysiant digidol, gallwch hefyd fynd i **www.cliciocysylltudarganfod.org**

A hoffech chi siarad â rhywun wyneb yn wyneb?
Os nad ydych yn hollol siŵr a allwn eich helpu, codwch y ffôn i gael sgwrs gydag un ohonom am yr hyn yr ydych am ei wneud ac i weld a allwn eich helpu.

Ein rhif ffôn yw **029 2055 4955**.

“Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Ganolfan Cydweithredol Cymru am y cymorth gwych a gawsom; effeithlon, parod, cyfeillgar a thrwyadl. Fydden ni ddim wedi gallu gwneud hyn heboch chi.”
Newfoundland Festival Ltd